



ASEDAU CYNHYRCHU FFERM WYNT AR Y MÔR MORECAMBE (Y 'PROSIECT')

Deddf Gynllunio 2008 - Adran 47(6) 'Rhybudd o gyhoeddi'r datganiad ymgynghori cymunedol'

RHYBUDD O GYHOEDDI DATGANIAD YMGYNGHORI CYMUNEDOL ("SOCC")

Rhoddir rhybudd trwy hyn fod Morecambe Offshore Windfarm Ltd (yr "Ymgeisydd") o 12 Alva St, Caeredin yn bwriadu gwneud cais i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogeled Ynni a Sero Net dan Adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008 am ganiatâd datblygu (y "Cais") ar gyfer y Prosiect. Mae'r Ymgeisydd yn gyd-fenter rhwng Cobra Instalaciones y Servicios, S.A. ("Cobra") a Flotation Energy Ltd.

Mae'r Prosiect yn cynnwys fferm wynt ar y môr arfaethedig wedi'i lleoli ym mharthau dwyreiniol Môr Iwerddon. Disgwylir iddi gynhyrchu capasiti enwol o 480 mega-wat (MW) a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar gyfer dros 500,000 o gartrefi yn y Deyrnas Unedig. Ar y pwynt agosaf, mae safle'r fferm wynt yn oddeutu 30km oddi wrth lannau arfordir Swydd Gaerhirfryn, Bydd y fferm wynt yn helpu'r Deyrnas Unedig i gyrraedd ei tharged o gynhyrchu 50GW o bŵer drwy wynt ar y môr erbyn 2030. Bydd y Prosiect yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- Hyd at 40 o eneraduron tyrbinau gwynt alltraeth
- Hyd at ddau blatfform is-orsaf alltraeth
- Ceblau cysylltu â'r platfformau
- Ceblau rhyng-arâe

Caiff y platfformau is-orsafodd alltraeth a'r tyrbinau gwynt eu lleoli o fewn safle'r fferm wynt ar y môr a chânt eu gosod yn sownd wrth wely'r môr ag adeiladwaith sylfeini. Caiff y trydan a gynhyrchir gan y generaduron tyrbinau gwynt ei gario i'r grid cenedlaethol drwy gyfrwng Prosiect Asedau Trawsyrro Ffermydd Gwynt ar y Môr Morgan a Morecambe (ynghyd ag isadeiledd trawsyrro ar gyfer Asedau Cynhyrchu Prosiect Gwynt ar y Môr Morgan).

Cyn gwneud y Cais, mae gan yr Ymgeisydd ddyletswydd i ymgynghori â'r gymuned leol ynglŷn â'r Prosiect fel bod cymunedau a rhanddeiliaid y gallai'r Prosiect hwn effeithio arnynt yn cael helpu i lywio'r ffordd y mae'n datblygu. Dan Adran 47(1) o Ddeddf Cynllunio 2008, rhaid i'r Ymgeisydd gynhyrchu dogfen o'r enw Datganiad Ymgynghori Cymunedol ("SoCC") Mae hon yn datgan sut bydd yr Ymgeisydd yn ymgynghori â'r gymuned leol am y cynnig a sut all aelodau'r gymuned gymryd rhan. Mae'n rhaid iddynt hefyd sicrhau bod y SoCC ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd mewn ffordd sy'n rhesymol gyfleus i bobl sy'n byw yng nghyffiniau'r tir, a chyhoeddi'r rhybudd hwn gan nodi lle a phryd gellir archwilio'r SoCC.

Datganiad Ymgynghori Cymunedol

Mae'r SoCC yn egluro'r ymgynghoriad cyhoeddus y mae'r Ymgeisydd yn bwriadu ei gynnal a sut all pobl wneud sylwadau am y Prosiect.

Mae'r SoCC ar gael yn rhad ac am ddim ar wefan y prosiect, ynghyd ag unrhyw ddeunyddiau eraill a grybwyllir uchod, ar wefan yr Ymgeisydd: www.morecambeandmorgan.com/morecambe. Bydd yr holl ddogfennau hefyd ar gael yn y lleoliadau cyfeirio isod ac ar wefan y Prosiect drwy gydol cyfnod yr ymgynghoriad (**19 Ebrill 2023 tan 4 Mehefin 2023**).

Os nad oes ffordd i chi weld y wefan, cysylltwch â thîm y Prosiect ar **0800 915 2493 (opsiwn 2)** neu drwy'r e-bost ar hello@morecambeoffshorewind.com lle gallwch wneud cais am gopi papur neu gopi electronig. Efallai bydd rhaid i'r derbynnydd dalu tâl copïo rhesymol.

Caiff ceisiadau pellach am gopiâu caled eu hadolygu fesul achos.

Lleoliad cyfeirio	Oriau agor*
Llyfrgell Henry Bloom Noble , 8 Duke Street, Douglas, Ynys Manaw IM1 2AY	Llun-Mercher a Gwener: 8:30am hyd 5pm Iau: 10am hyd 7pm Sadwrn: 9am hyd 4pm
Llyfrgell y Dref Ramsey , Parliament Square, Ramsey, Ynys Manaw IM8 1EG	Llun-lau a Sadwrn: 9am hyd 4.30pm Gwener: 9am hyd 4pm
Cyngor y Ddinas Preston , Neuadd y Dref, Lancaster Road, Preston PR1 2RL	Llun-Mercher a Gwener: 9am hyd 5pm Iau: 10am hyd 5pm
Neuadd Gymuned Abbots Vale , Abbots Vale, Barrow-in-Furness LA13 9PA	Llun-Gwener: 9am hyd 8pm
Prif Lyfrgell Barrow-in-Furness , Ramsden Square, Barrow-in-Furness LA14 1LL	Llun-lau: 9:30am hyd 6pm Gwener: 9:30am hyd 5pm Sadwrn: 10am hyd 4pm
Llyfrgell Southport , Lord Street, Southport PR8 1DJ	Llun-Gwener: 10am hyd 5pm Sadwrn: 10am hyd 2pm
Cyngor Tref a Chanolfan Gymuned Penwortham , Kingsfold Drive, Penwortham, Preston PR1 9EQ	Llun-lau: 10am hyd 3pm Gwener: 10am hyd Hanner Dydd
Neuadd Gymuned Egremont , Egremont Mission, Guildford Street, Wallasey CH44 0BP	Llun-Gwener: 9am hyd 4pm
Llyfrgell Llandudno , Stryd Mostyn, Llandudno LL30 2RP	Llun-Mercher a Gwener: 9am hyd 5:30pm Iau: 10am hyd 7pm Sadwrn: 9:30am hyd 3pm
Llyfrgell y Rhyl , Stryd yr Eglwys, Rhyl LL18 3AA	Llun: 9:30am hyd 6pm Mawrth-Gwener: 9:30am hyd 5pm Sadwrn: 9:30am hyd 12:30pm
Llyfrgell Amlwch , Lôn Parys, Amlwch, Ynys Môn LL68 9EA	Mawrth: 9:30am hyd 12:30pm a 2pm hyd 5pm Mercher: 9:30am hyd 12:30pm Iau: 2pm hyd 7pm Gwener: 9:30am hyd 12:30pm Sadwrn: 9:30am hyd 12:30pm
Llyfrgell Gyhoeddus Bangor , Ffordd Gwynedd, Bangor LL57 1DT	Llun-Mawrth: 9.30am hyd 6.30pm Mercher-Gwener: 9.30am hyd 5pm Sadwrn: 9.30am hyd 1pm

*Cymerwyd yr amseroedd agor o ffynonellau ar-lein ym mis Chwefror-Mawrth 2023. Cofiwch gadarnhau'r amseroedd agor gyda'r lleoliad os ydych yn bwriadu mynd draw.

Os yw'r amgylchiadau lleol yn newid fel ei bod yn angenrheidiol addasu'r trefniadau ar gyfer y lleoliadau cyfeirio uchod, bydd yr Ymgeisydd yn cysylltu â'r awdurdodau lleol perthnasol i gytuno ar drefniadau eraill addas ar gyfer arddangos copiau caled o'r SoCC os yn bosibl, gyda'r SoCC yn dal i fod ar gael ar wefan y Prosiect fel dewis arall.

Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

Caiff y Prosiect ei gyfrif fel datblygiad Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ("EIA") fel y diffinnir yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol) 2017. O'r herwydd, bydd yr Ymgeisydd yn gwneud EIA o'r Prosiect ac yn cyflwyno Datganiad Amgylcheddol fel rhan o'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, gan asesu'r effeithiau sylweddol tebygol a fydd yn codi o'r Prosiect ar yr amgylchedd a'r mesurau arfaethedig i'w lliniaru.

Bydd y Wybodaeth Amgylcheddol sydd gan yr Ymgeisydd ar hyn o bryd ar gael yn ystod yr ymgynghoriad ar y Prosiect ar ffurf PEIR a Chrynodeb Annhechnegol o'r PEIR. Cewch gyfle i weld a gwneud sylw ar y PEIR yn ystod yr ymgynghoriad, ac mae'r manylion wedi'u cynnwys yn y SoCC.